**EPT-04-02 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mawrth 12 Chwefror 2002 |
| Amser: | 9:15 am hyd 9:45 am |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3/4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## Yn bresennol:

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Gareth Jones (yn dirprwyo dros Helen Mary Jones) | Conwy |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Keith Bwsh | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod. Ar ran y Pwyllgor estynnodd ei gydymdeimlad ag Eleanor Burnham ar ei phrofedigaeth deuluol.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Roedd ymddiheuriad wedi dod i law oddi wrth Helen Mary Jones a chroesawodd y Cadeirydd Gareth Jones i'r Pwyllgor fel dirprwy drosti.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5. Gwnaed hynny fel a ganlyn:

- Geraint Davies – Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Val Lloyd – Aelod o Gyngor Dinas Abertawe;
- Gareth Jones – Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Eitem 2: Ymchwiliad Nantygwyddon: Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor** – EPT-04-02 (p 1)

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad drafft, a oedd wedi'i seilio ar y drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol, lle'r oedd y Pwyllgor wedi cytuno i gymeradwyo argymhellion yr Ymchwilydd annibynnol, David Purchon. Roedd David Purchon wedi awgrymu newidiadau mewn perthynas â datganiadau a wnaed yn y cyfarfod blaenorol fel a ganlyn:

> Para. 2.6 y frawddeg olaf – Mae wedi awgrymu ailgylchu a chompostio gwastraff bioddiraddadwy fel dewisiadau amgen yn lle gwaredu deunyddiau o'r fath heb eu trin mewn safleoedd claddu sbwriel (adran 8 o'i adroddiad).
>
> Para. 2.9 y frawddeg olaf ond un – Dylai astudiaeth o'r fath fynd ymhellach na'r dull arferol o gynnal astudiaeth o'r tu ôl i ddesg, a dylai gynnwys ~~cymryd samplau o'r~~ cynnal profion ar y safle.
>
> Para. 2.15 y frawddeg olaf – Rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU i ddileu'r ddarpariaeth hon o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd, ac yn y cyfamser dylai wahodd holl awdurdodau lleol Cymru i sicrhau eu bod yn cyhoeddi'r holl wybodaeth berthnasol, boed honno yn ‘sensitif yn fasnachol’ ai pbeidio, mewn perthynas â gweithgareddau eu cwmnïau gwaredu sbwriel nhw.

2. Cymeradwyodd y Pwyllgor destun yr adroddiad fel y câi ei awgrymu, yn amodol ar y newidiadau uchod.

**Eitem 3: Ymchwiliad Nantygwyddon: Ystyried cynnig drafft** – EPT-04-02 (p 2)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur, a oedd yn cynnwys cynnig ar adroddiad y Pwyllgor a gâi ei awgrymu ar gyfer cyfarfod llawn, fel y'i cynigiwyd gan y Trefnydd a oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r cynnig. Gofynnai'r cynnig arfaethedig i'r cyfarfod llawn 'nodi'r' adroddiad. Roedd y Gweinidog dros yr Amgylchedd wedi nodi y byddai hi'n ymateb i'r adroddiad ar ddiwrnod y ddadl.
2. Gan fod y cyfarfod llawn wedi cyfeirio Ymchwiliad Nantygwyddon i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth gyda'r bwriad iddo adrodd yn ôl gydag argymhellion i'w hystyried, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r cynnig wahodd y cyfarfod llawn i wneud mwy na 'nodi'r' adroddiad. Byddai'r Cadeirydd yn trafod y cynnig arfaethedig ymhellach gyda'r Trefnydd. Cefnogodd yr Aelodau hefyd awgrym y Cadeirydd y dylai'r Panel Cadeiryddion roi ystyriaeth i alluogi Cadeiryddion i gyflwyno cynigion yn ymwneud ag adroddiadau pwyllgorau pwnc.

3.3 Cofnododd y Cadeirydd ddiolch y Pwyllgor i bawb – yn enwedig David Purchon a'r trigolion lleol – a fu'n rhan o'r broses arloesol hon, a oedd wedi rhoi sylw i bryderon lleol ac wedi cymhwyso'r gwersi ar lefel genedlaethol. Câi adroddiad y Pwyllgor ei gyflwyno i'r cyfarfod llawn ar 26 Chwefror, a byddai fersiwn wedi'i argraffu yn cael ei anfon at bawb a fu'n ymwneud â'r ymchwiliad ym mis Mawrth gyda chais am atborth ar broses yr ymchwiliad.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

4.1 Byddai cyfarfod nesaf y pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 27ain Chwefror 2002 yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2002**